# TREIALON CWN DEFAID DOLWYDDELAN

Lleol Nos Wener, 25ain o Fedi am 4.30
Dydd Sadwrn o 9 y bore ymlaen

Lluniaeth ar gael
Cae tu ôl i'r Pafiliwn



## ‘Dolwyddelan yn ei Blodau

Hoffem ni ddiolch i holl aelodau a chyfeillion Dolwyddelan yn ei Blodau am eu gwaith caled yn ystod y gwanwyn a’r haf hwn.
Chwynnu, plannu, dyfrio, casglu sbwriel, ail-baentio dalwyr planhigion a meinciau. Os oes blodau mewn llefydd cyhoeddus yn Nolwyddelan, mae’n debyg bod y diolch amdanynt i bwyllgor Dolwyddelan yn ei Blodau.
Bu i’r tîm hefyd gynnal dau ddigwyddiad codi arian llwyddiannus, noson Vinted, gyda’r elw yn mynd tuag at y Carnifal, a stondin yn y farchnad wnaeth godi £194 tuag at ddalwyr planhigion a phlaciau er cof am Eurwyn. Bu inni hefyd dderbyn dwy rodd hael o £20 yr un (wedi’i gynnwys yn y cyfanswm).

I bawb sy’n ein cefnogi ni, DIOLCH YN FAWR

## Hoffai Bwyllgor y Carnifal ddiolch i . . .



ALFA, D&C Jones, Betws Motors ac I.L.D Engineering am noddi’r Carnifal, yn ogystal â’r Cyngor Cymuned a Dolwyddelan yn ei Blodau, Menter Siabod, Griffiths Snooker a’r W.I am eu cyfraniadau ariannol. Diolch hefyd i Brodwaith, Myfanwy am gynnal y noson Vinted a Shaun am werthu’r calendrau ac i bawb arall am eu cyfraniadau a’u gwobrau caredig.